# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Lisa Williams**

**Caergybi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Lisa Williams wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at chwe phlentyn o dan 12 oed yn ei chartref teuluol ym mhentref Bodedern, Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.00am a 5.20pm. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth, a defnyddir y Gymraeg hefyd er mwyn i'r plant gyfathrebu yn eu dewis iaith. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth hwn yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Roedd y gwarchodwr plant yn frwd dros ei rôl ac yn darparu gofal magwrus ac ymatebol. Caiff ffyrdd iach o fyw a hylendid da eu hyrwyddo, a rhoddir digon o gyfleoedd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gofal mewn amgylchedd glân, cyfforddus lle caiff risgiau eu rheoli a'u monitro'n effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus ac yn rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin rhwng y rhieni, a chaiff gwybodaeth ei rhannu â nhw yn brydlon ac yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi diweddaru ei thystysgrif cymorth cyntaf pediatrig.
Mae gan bob aelod perthnasol o'r cartref dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd y gwarchodwr plant hefyd wedi tanysgrifio i gymhwysiad ar-lein a ddefnyddir i rannu gwybodaeth â'r rhieni, a hefyd i wasanaeth sy'n darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â'r gweithdrefnau newid cewynnau a'r wybodaeth a gynhwysir mewn rhai polisïau.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd. Maent yn gallu gwneud penderfyniadau am yr hyn yr hoffent ei wneud, ac maent yn hyderus i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae'r plant wrth eu bodd â'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio'n dda ar eu chwarae. Maent yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth ac maent yn ddigon parod i gydweithio â thasgau.

### Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn hyderus o ran mynegi'r hyn roeddent ei eisiau a gallent ddylanwadu ar sut roeddent yn treulio eu hamser.  Er enghraifft, pan fynegodd plentyn ei fod am gael ffrwythau dim ond awr ar ôl cael cinio, paratôdd y gwarchodwr plant ei fyrbryd yn ddigwestiwn, gan ddangos fod ei anghenion yn bwysicach na'r drefn feunyddiol.  Ar ôl iddynt ddychwelyd o'r ysgol, sylwodd y plant hŷn ar y paent a'r stampwyr ar y wyneb gweithio yr oedd y plant iau wedi bod yn eu defnyddio yn gynharach, a gofynnon nhw a allent greu rhywfaint o waith celf hefyd. Ymatebodd y gwarchodwr plant i'w cais yn brydlon a'u helpu i osod paent, y stampwyr a'r papur fel y gallent greu rhywfaint o waith celf. Roedd y plant yn gyfforddus i ddilyn eu diddordebau eu hunain a symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau a'r teganau penodol fel y dymunent.  Roedd y gwarchodwr plant yn gwerthfawrogi pob ymdrech i gyfathrebu, wrth iddi ymateb i'r plant yn brydlon a blaenoriaethu hyn cyn cyflawni unrhyw dasg arall.

Roedd y plant wedi setlo, yn gyfforddus ac yn ddiogel yng ngofal y gwarchodwr plant. Roeddent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r gwarchodwr plant a'i merch, a oedd yn bresennol ar ddiwrnod ein hymweliad. Roeddent yn sgwrsio ac yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus, gyda llawer o wenu a chwerthin. Roeddent yn mwynhau dangos i'r gwarchodwr plant, a ninnau, y caneuon roeddent yn eu canu gartref a'r pethau roeddent yn hoffi chwarae â nhw.  Roedd y plant yn mynd at y gwarchodwr plant pan roeddent am gael cwtsh, ac roeddent yn gwybod i ofyn iddi pan oedd angen cymorth neu sicrwydd arnynt.  Er enghraifft, aeth un plentyn at y gwarchodwr plant i gael mwythau ar ôl baglu a chwympo. Rhoddodd y gwarchodwr plant sicrwydd iddo a'i gysuro'n dyner, a dechreuodd y plentyn chwarae eto'n gyflym.

Roedd y plant yn hapus i chwarae gyda'i gilydd, rhannu teganau a chymryd eu tro. Er enghraifft, roeddent yn rhannu'r sgwpiau a'r chwisg wrth chwarae yn y dŵr sebonllyd, gan sgwrsio'n hapus â'i gilydd wrth iddynt wneud hynny. Roedd y plant yn cydweithio'n dda ac yn barod i helpu â thasgau. Er enghraifft, pan ofynnwyd i'r plant iau am help i roi'r teganau i gadw cyn casglu'r plant hŷn o'r ysgol, roeddent yn fodlon gwneud hynny.

Roedd y plant yn awyddus i roi cynnig ar y gweithgareddau a oedd ar gael iddynt, ac roeddent yn mwynhau eu chwarae.  Er enghraifft, roedd un plentyn wrth ei fodd yn adeiladu gyda'r briciau *'bristle'*. Roedd yn sgwrsio'n hapus â'i hun wrth iddo osod y briciau ar ben ei

gilydd er mwyn creu adeilad, ac roedd llawer o wenu a chwerthin o ganlyniad i hynny. Roedd plentyn arall wrth ei fodd yn archwilio'r rhannau rhydd pren, gan osod y cylchau pren ar ei arddwrn fel breichled. Roedd yn canolbwyntio'n dda wrth chwilio drwy'r rhannau rhydd am yr holl gylchau, gan ddangos i'r gwarchodwr plant yn frwd faint o freichledi roedd yn ei wisgo.

Roedd y plant yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd rhan mewn tasgau. Er enghraifft, roedd hyd yn oed y plant ieuengaf yn dysgu sut i gasglu adnoddau, gwisgo eu hesgidiau a'u cotiau eu hunain, a golchi eu dwylo yn annibynnol. Roeddent hefyd yn mwynhau dysgu sut i fwydo eu hunain amser cinio ac amser byrbryd, ynghyd ag ymarfer sut i ddefnyddio'r llwyau a'r cwpanau'n annibynnol. Rhoddir digon o amser, lle ac anogaeth er mwyn iddynt ymarfer y sgiliau hyn.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal magwrus, gan ymateb i'w hanghenion a'u hymdrechion i gyfathrebu mewn ffordd gynnes a charedig. Caiff ffyrdd iach o fyw a hylendid da eu hyrwyddo, a rhoddir digon o gyfleoedd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio dulliau effeithiol o annog rhyngweithio cadarnhaol. Mae'n cynllunio amrywiaeth o weithgareddau difyr ar gyfer y plant ac yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am amser eu plentyn yn y gwasanaeth.

### Ein canfyddiadau

Drwy drafodaethau â'r gwarchodwr plant, roedd yn amlwg ei bod yn deall sut i amddiffyn y plant ac yn deall gweithdrefnau diogelu yn dda, ac roedd hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc.  Roedd hefyd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, ac roedd unrhyw ddamweiniau wedi'u cofnodi'n dda drwy ddefnyddio cymhwysiad ar-lein, gan alluogi'r rhieni i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn brydlon.  Dangosodd cofnodion fod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y gwarchodwr plant yn hyrwyddo hylendid da drwy annog y plant i olchi eu dwylo cyn prydau bwyd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Wrth newid cewynnau, roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio menig untro ac yn rhoi gorchudd untro ar y mat newid, ond nid oedd yn defnyddio ffedog untro bob amser.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael i'r plant drwy'r dydd. Roedd cinio iachus o wyau wedi'u sgramblo ar dost gwenith cyflawn gyda ffrwythau i bwdin yn cael ei ddarparu ar ddiwrnod ein hymweliad. Roedd y darparwr plant hefyd yn darparu byrbrydau iachus, megis hwmws, cracers, ffyn llysiau a ffrwythau. Roedd digon o gyfleoedd yn cael eu darparu ar gyfer y plant i fod yn gorfforol egnïol; roeddet yn chwarae yn yr ardd yn rheolaidd yn ystod misoedd yr haf, ac yn mynd allan am dro ac yn chwarae yn y maes chwarae lleol neu'n mynd ar deithiau i dreulio amser yn yr awyr iach yn ystod misoedd y gaeaf. Cadarnhawyd hyn yn ystod trafodaethau â'r plant, yn y dyddiaduron dyddiol a'r ffotograffau a welsom.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthynas agos â'r plant. Siaradodd mewn ffordd gyfeillgar a digynnwrf, gan ddangos cynhesrwydd ac agosatrwydd gwirioneddol. Roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant ac yn datblygu eu hunan-barch. Roedd y gwarchodwr plant yn esbonio'n ofalus beth fyddai'n digwydd nesaf yn ystod y dydd, a rhoddodd rybuddion ychydig funudau cyn i'r gweithgareddau ddod i ben, gan leihau rhwystredigaeth y plant iau gymaint â phosibl. Roedd y polisi rheoli ymddygiad yn rhoi manylion sut y byddai'n ymdrin ag ymddygiad amhriodol mewn ffordd gadarnhaol, a atgyfnerthwyd drwy ein trafodaeth â'r gwarchodwr plant. Clywsom ddigon o ganmoliaeth yn cael ei rhoi drwy gydol y diwrnod am ymddygiad da, cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau difyr wedi cael eu trefnu er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu sgiliau gwahanol. Roedd y gwarchodwr plant yn gyfarwydd â

diddordebau pob plentyn a gallai awgrymu gweithgareddau y mae'n bosibl y byddent yn eu mwynhau. Roedd y gwarchodwr plant yn arsylwi ar bob un o'r plant yn rheolaidd, ac yn dogfennu eu hamser yn y gwasanaeth drwy luniau a nodiadau ar raglen ar-lein. Roedd dyddiaduron hefyd yn cael eu cwblhau ar y cymhwysiad ar-lein, a oedd yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i'r rhieni am amser eu plant yn y gwasanaeth, megis yr hyn roeddent wedi'i fwyta, pryd y gwnaethant gysgu ac am ba hyd, a'u hwyliau cyffredinol drwy gydol y dydd.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gofal mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd difyr a chyffrous i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac yn briodol i anghenion y plant. Nodir risgiau a rhoddir mesurau effeithiol ar waith i reoli neu ddileu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd diogelwch y plant yn cael ei flaenoriaethu, ac roedd mesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod risgiau'n cael eu lleihau. Roedd y safle'n ddiogel; roedd ffens o amgylch yr ardaloedd awyr agored ac roedd y drws ffrynt wedi'i gloi er mwyn atal mynediad diawdurdod. Roedd cofnodion cywir o bresenoldeb dyddiol yn cael eu cadw, a gallai'r gwarchodwr plant gyfeirio atynt pe byddai angen gadael y safle'n gyflym. Roedd teganau ac ardaloedd chwarae yn cael eu gwirio bob dydd i nodi unrhyw beryglon i ddiogelwch y plant. Roedd asesiadau risg ysgrifenedig yn tanlinellu'r mesurau oedd ar waith i reoli peryglon posibl i'r plant. Roedd y gwarchodwr plant yn adolygu ac yn diwygio'r asesiadau risg hyn bob mis; roedd unrhyw ffactorau ychwanegol, megis addurniadau Nadolig, yn cael eu hychwanegu yn ôl yr angen. Roedd hyn yn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Roedd yr eiddo yn lân, wedi'i addurno'n dda ac yn groesawgar. Roedd y gwarchodwr plant wedi gosod yr ardal chwarae er mwyn sicrhau y gallai'r plant symud o gwmpas a chael gafael ar yr adnoddau'n ddirwystr ac yn annibynnol. Gosodwyd teils sbwng ar y llawr yn yr ystafell chwarae, gan ei gwneud yn fwy cyfforddus i'r babanod a'r plant bach eistedd a chropian. Hefyd, gallai'r plant ddefnyddio'r bwrdd bwyd mawr yn ardal y gegin gyfagos ar gyfer bwyta byrbrydau, prydau bwyd a chwblhau gweithgareddau crefft. Roedd samplau o waith y plant wedi'u harddangos yn falch ar yr hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod teganau yn cael eu storio'n briodol, yn drefnus iawn ac yn hawdd cael gafael arnynt er mwyn i'r plant ddewis ohonynt yn ddidrafferth fel y dymunent. Roedd amrywiaeth eang o deganau a deunyddiau ar gael i'r plant, gan gynnwys gemau bwrdd, posau jig-so, doliau, ceir, teganau synhwyraidd, teganau cerdd a phabell chwarae. Roedd yr ardal awyr agored hefyd yn daclus ac yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau i'r plant eu mwynhau yn ystod misoedd yr haf. Er enghraifft, tŷ bach twt sylweddol, llithren, siglenni, ac ardaloedd chwarae gyda thywod a dŵr.

Roedd y teganau a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd y teganau awyr agored yn cael eu storio'n briodol pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod y teganau yn cael eu cylchdroi yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb y plant yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Roedd amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r plant a oedd yn eu helpu i ddod yn annibynnol. Er enghraifft, sedd doiled ar gyfer plant a photiau er mwyn helpu'r plant i ymarfer mynd i'r toiled.

## 4. Arwain a Rheoli — Da

**Crynodeb**

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae'n drefnus ac yn sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin rhwng y rhieni, ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y gwarchodwr plant yn drefnus ac yn rhedeg y gwasanaeth yn dda. Roedd ymwybodol o'i chyfrifoldebau ac yn ymrwymedig i roi'r gofal o ansawdd da i'r plant. Roedd datganiad o ddiben cynhwysfawr ar waith a oedd yn rhoi disgrifiad clir o'r gwasanaeth a ddarperir, ac yn rhoi'r holl wybodaeth roedd ei hangen ar y rhieni i benderfynu a allai'r gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oedd y polisi cwynion yn cynnwys yr amserlenni ar gyfer ymateb i gŵyn ac nid oedd y polisi diogelu'n cynnwys y rhif ffôn ar gyfer y swyddog amddiffyn plant lleol ar ddyletswydd. Nid oedd dyddiad yr adolygwyd y polisïau hyn wedi'i nodi ychwaith.

Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau i adolygu ansawdd ei gwasanaeth, ac mae'n gwneud newidiadau er mwyn gwella ei harferion. Roedd y gwarchodwr plant yn casglu adborth yn rheolaidd o holiaduron a anfonwyd at y rhieni. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod hefyd yn ceisio barn y plant am y gwasanaeth drwy adborth ar lafar a chynnal trafodaethau. Darparodd gopi o'r adolygiad ansawdd gofal diweddaraf i ni, a amlinellodd y gwelliannau a wnaed hyd yma ac unrhyw welliannau arfaethedig. Dangosodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod wrthi'n cyflwyno ei Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ar-lein.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli adnoddau'n dda ac yn sicrhau ei bod yn darparu gwasanaeth da. Roedd y dogfennau'n drefnus iawn, wedi'u ffeilio'n ddiogel ac roeddent ar gael yn gyfleus pan fo angen. Roedd y gwiriadau cofnodion troseddol manylach ar gyfer yr holl oedolion a oedd yn byw ar y safle yn gyfredol. Gwelwyd tystiolaeth ar ffeil hefyd fod y gwarchodwr plant wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant er mwyn dysgu am arfer gorau presennol a'r datblygiadau diweddaraf ym maes gofal plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn mwynhau cysylltiadau da â'r gymuned ac yn cael cyfleoedd i gymdeithasu â phlant eraill sy'n byw gerllaw. Roedd yn hawdd mynd ati a dywedodd wrthym ei bod wedi meithrin cydberthnasau gwaith da â'r rhieni. Dywedodd un rhiant y cawsom sgwrs ag ef wrthym ei fod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a bod ei blentyn wedi setlo. Roedd yn canmol y ffordd roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar y cymhwysiad ar-lein. Dywedodd y gwarchodwr plant ei bod yn mynd i grwpiau chwarae lleol yn rheolaidd, lle mae hi a'r plant yn cadw cysylltiad yn rheolaidd â'r rhieni a'r plant a oedd yn byw yn y gymuned leol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion arfer da canlynol i'r gwarchodwr plant eu hystyried:

- Gwisgo ffedogau untro wrth newid cewynnau a nodir yn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Gosodiadau Gofal Plant (0-5 oed), Meithrinfeydd, Gwarchodwyr Plant a Grwpiau Chwarae: *Iechyd Cyhoeddus Cymru - Canllawiau Cymru Gyfan (2014);*
- cynnwys yr amserlenni ar gyfer ymdrin â chwyn ym mholisi cwynion y gwasanaeth;
- cynnwys manylion cyswllt y swyddog amddiffyn plant ar ddyletswydd yr awdurdod lleol yn y polisi diogelu;
- sicrhau bod y polisïau wedi'u dyddio er mwyn dangos pryd y cawsant eu hadolygu.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 11 Chwefror 2020, rhwng 11:40am a 4:10pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a gwneud sylwadau er mwyn casglu tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a oedd yn cael ei roi gan y gwarchodwr plant;
- siarad â'r plant, y gwarchodwr plant ac un rhiant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad, a
- rhoi adborth manwl ar ein canfyddiadau i'r gwarchodwr plant ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion i fynd i'r afael â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: [www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Lisa Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 8:00am a 5:20pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **18 Ionawr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **11 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/07/2020